

A. ASESIAID EFFAITH Y GYMRAEG


Cliriwyd gan Safonau, cyf. 05/07/2019

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* ac yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisiau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i *Cymraeg 2050*:



1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru): 05/07/2019

2. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – *Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?
- a) *Mae'r diwygiad i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc cyrff penodol yn y gwasanaeth iechyd) yn un cyfyngedig ei natur o ran polisi. Bydd yn galluogi i reoliadau perthnasol gael eu drafftio.*
- b) *Mae'r cynllun indemniadau meddygon teulu yng Nghymru a gefnogir gan y wladwriaeth yn cael ei ddarparu gan GIG Cymru. Mae partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru: Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn gallu darparu cyngor a chanllawiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â thrwy gyfrwng y Saesneg.*
- c) *Felly, bydd cyngor ar gael yn Gymraeg ar faterion yn ymwneud â materion a gwasanaeth esgeuluster ar gael i feddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill (ar gyfer gwaith y GIG) sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys mynediad at gyngor cyfreithiol drwy gyfrwng y Gymraeg.*
3. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.** Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:
- ♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg¹ (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Bydd yn galluogi pob siaradwr Cymraeg sy'n dymuno gwneud hawliad yn bersonol am esgeuluster clinigol yn erbyn meddygon teulu i wneud y cwynion hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yn galluogi meddygon teulu sy'n siarad Cymraeg i gael cyngor / amddiffyniad cyfreithiol drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - ♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

¹ Gall y rhain fod yn gymunedau clos yng nghefn gwlad, mewn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn trefi ac mewn rhith-gymunedau nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth.

Yn anuniongyrchol, gallai annog cyflwyno mwy o gyrsiau cyfreithiol Cymraeg a rhoi'r cyfle i bobl sydd wedi dysgu Cymraeg ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg wrth wneud cais am esgeuluster clinigol yn erbyn meddygon teulu.

- ◆ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau² sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuentid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)**

Gweler 2a) a 2b)

- ◆ **Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?**

Mae pob practis meddyg teulu yn cadw gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ynglŷn â sut i wneud cwyn am esgeuluster clinigol. Mae'r wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd ar wefan partneriaeth Cydwasanethau GIG Cymru: Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.

- ◆ **Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**
- ◆ **Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?**

Diwygiad cyfyngedig ei natur yw hwn, o ran polisi, mewn maes penodol o'r Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc cyrff penodol yn y gwasanaeth iechyd. Bydd hyn yn hybu gallu Gweinidogion Cymru i ddatblygu polisiau yn y meysydd hyn a bydd y cynlluniau sy'n bodoli'n barod yn cael eu diogelu at y dyfodol.

² Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, ac i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Bil y GIG (Indemniadau) (Cymru) i ddiwygio adran 30 (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau) rhai cyrff iechyd) Deddf GIG (Cymru) 2006

Bil y GIG (Indemniadau) (Cymru) i ddiwygio adran 30 (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau) rhai cyrff iechyd) Deddf GIG (Cymru) 2006